Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 61** **Hydref 2022**



Gwelir Duw yn lliwiau'r hydref
pan aeddfedo'r cnwd a'r grawn,
mae ei roddion yn y berllan,
mae ei wyrth mewn sgubor lawn.

# Newid byd …

Rwy'n ysgrifennu'r geiriau hyn drannoeth cyhoeddi marwolaeth y Frenhines Elizabeth II yn 96 mlwydd oed. Bydd unrhyw un a gollodd fam neu dad yn medru cydymdeimlo â theulu'r galarus. A beth bynnag yw ein daliadau gwleidyddol, gallwn gydymdeimlo â theulu a gollodd fam, nain a hen nain. I bob teulu sy'n galaru, person annwyl iddynt fydd canolbwynt eu galar. Yn ddiau, bydd mynegi'r galar hwnnw'n anos pan fydd llygaid y cyhoedd a'r cyfryngau yn gwylio ac yn darllen pob math o arwyddocâd i bob ystum. Ar lefel gwbl ddynol, gallwn fel bodau meidrol gydymdeimlo â phob un, beth bynnag eu 'statws' cyhoeddus, yn awr eu colled.

**Newid hanesyddol**

Pryd oedd y tro diwethaf i lywodraeth brenhines neu frenin newid, ac i lywyddiaeth prif weinidogion newid yn ystod yr un wythnos? Wrth i un Elizabeth dynnu at ddiwedd ei hoes a'i theyrnasiad, camodd Elizabeth arall drwy ddrysau 10 Stryd Downing. Mynd yn ei blaen y mae'r dasg o lywodraethu wrth i Charles III ddod yn frenin cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig.

Oherwydd i'r Frenhines fod ar ei gorsedd cyhyd, ni welodd y rhan fwyaf ohonom arian neu stampiau a llun brenin arnynt; bydd QC cyfreithiol yn troi'n KC dros nos. Bydd y cyfeiriad y mae'r brenin newydd yn ei wynebu ar ein harian bath ac ar ein stampiau yn newid. Ni fydd unrhyw un ohonom sy'n darllen y llith hon yn debygol o weld, yn ystod ein hoes, frenhines arall yn cartrefu ym Mhalas Buckingham. Gwrywaidd yw'r llinach bellach!

Heb unrhyw ormodiaith, mae marwolaeth y Frenhines Elizabeth yn ddigwyddiad o bwys hanesyddol ac fel y dygodd marwolaeth y Frenhines Fictoria yn 1901 gyfnod hanesyddol, cymdeithasol a diwylliannol arbennig i ben, bydd haneswyr y dyfodol yn medru disgrifio cymeriad oes teyrnasiad Elizabeth II.

***

## Dechrau teyrnasiad newydd

Prin fod unrhyw un yn edrych ymlaen gyda hyder wrth i ni ymgodymu â'r heriau dychrynllyd sy'n wynebu'r wladwriaeth: y llywodraeth ganolog yn San Steffan a'r llywodraethau yng Nghymru, yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon. Mae Brecsit a thorri'r berthynas â'r farchnad sengl yn Ewrop wedi gadael eu hôl ar ein heconomi a'n diwylliant, a bydd y rhyfel yn Wcráin yn parhau i effeithio ar brisiau ynni am fisoedd i ddod. Nid yw'n ymddangos y bydd modd i ni osgoi dirwasgiad dwys. A gwingo fydd tynged rhai o bobl fwyaf anghenus ein cymunedau wrth i'r costau cynyddol reibio'u gobaith.

Wyneb yn wyneb â'r sefyllfa, mae'n werth nodi hyn. Beth bynnag y dywed llywodraeth am y cyni economaidd a'r ansicrwydd gwleidyddol sydd ar y gorwel, mae gan bob llywodraeth werthoedd sy'n ei ffurfio, a'r gallu i wneud dewisiadau gwleidyddol wrth iddynt ymateb i'r heriau a ddaw. Dewis gwleidyddol a wneir gan lywodraeth yw ei pholisi ar drethu, a dewisiadau gwleidyddol yw ymatebion gwladwriaeth i gynhesu byd-eang, i fuddsoddi mewn isadeiledd, ysbytai, y gwasanaeth iechyd …

Wrth ddarllen Salm 72 y bore yma, salm oedd yn weddi dros frenin Israel, cefais fy atgoffa o 'swydd ddisgrifiad' llywodraethwr yn Israel. Mae yn y salm weddi dros y brenin a dymuniad am 'hir oes', ffyniant, llwyddiant ac ymestyniad ei ddyddiau a'i lywodraeth. Ond mae maniffesto'r weddi yn gosod 'cyfiawnder' fel nodwedd llywodraeth ffyniannus: 'Bydded iddo farnu dy bobl yn gyfiawn, a'th rai anghenus yn gywir. Doed y mynyddoedd â heddwch i'r bobl … bydded iddo amddiffyn achos tlodion y bobl a gwaredu'r rhai anghenus, a dryllio'r gorthrymwr … Bydded cyfiawnder yn llwyddo yn ei ddyddiau a heddwch yn ffynnu.'

Ar ddechrau cyfnod newydd yn hanes Prydain ni pheidiodd her y gwerthoedd yma, na'r alwad am ymrwymiad i gyfiawnder a thegwch a heddwch go iawn. Dyma'r gwerthoedd y dylem eu defnyddio i fesur y dewisiadau a'r penderfyniadau a gaiff eu gweithredu yn nechrau cyfnod hanesyddol brenhiniaeth Charles III.

*Watcyn James*

**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**

Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth,
SY23 3LZ
01970 880615
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru

## Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

| | |
|---|---|
| 2 Hydref | Oedfa i ddathlu daucanmlwyddiant geni Ieuan Gwyllt (1822–77)<br>Capel Pen-llwyn, am 5 o'r gloch<br>Arweinyddion: Mrs Margaret Daniel a Dr Rhidian Griffiths<br>Cyfeilydd: Mr Alan Wynne Jones |
| 23 Hydref | Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch<br>Casgliad tuag at Hadau Gobaith |
| 18 Rhagfyr | Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau: darlleniadau a cherddoriaeth ar gyfer y Nadolig<br>yng Nghapel y Garn am 6 o'r gloch |
| 25 Rhagfyr | Oedfa'r ofalaeth ar fore'r Nadolig dan arweiniad y Gweinidog<br>yng Nghapel y Garn am 9 o'r gloch |

Gweler hefyd: www.capelygarn.org
Tudalen Facebook: Capel y Garn
Sianel YouTube: Capel y Garn
Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

## Tudalen y Plant – Diolch am fyd lliwgar



Arglwydd, diolch am gael byw mewn byd sy'n llawn lliw. Diolch am brydferthwch lliwiau.

Diolch am ffresni eira gwyn.

Diolch am y meysydd **gwyrdd**.

Diolch am flodau
o bob lliw.

Diolch am ddail y coed
sy'n newid i **frown**, **coch** a **melyn**.



Diolch am anifeiliaid o wahanol liw a llun.

Diolch am liwiau'r enfys: **coch**, **oren**, **melyn**, **gwyrdd**, **glas**, **indigo** a **fioled**.

Diolch am dy fawredd di, O Dduw, a greodd y lliwiau i gyd. Amen.

Ydych chi'n hoffi pethau lliwgar? Beth am ddarllen
y weddi a lliwio'r lluniau yn lliwgar i gyd,
neu dynnu lluniau o'ch hoff bethau lliwgar?

(Y weddi: Delyth Wyn ac Aled Davies, *Mil a Mwy o Weddïau*)

**Oedfa i ddathlu daucanmlwyddiant Ieuan Gwyllt**

Capel Pen-llwyn

Nos Sul, 2 Hydref 2022

am 5 o'r gloch

Arweinyddion: Mrs Margaret Daniel a Dr Rhidian Griffiths

Cyfeilydd: Mr Alan Wynne Jones

Dewch yn llu i ganu ac i rannu

Bydd rhaglen ar gael wrth y drws



Paentiad gan Evan Williams
(Llyfrgell Genedlaethol Cymru)

Cyfrannodd John Roberts (Ieuan Gwyllt, 1822–77), a anwyd yn Nhanrhiwfelen, Capel Seion, cyn i'w deulu symud i ardal Pen-llwyn, yn aruthrol i ganu cynulleidfaol yng Nghymru.

Yn ogystal â chyfansoddi emyn-donau mawreddog fel 'Moab' a 'Liverpool', cyhoeddodd *Sŵn y Jiwbilî*, oedd yn addasiad o emynau poblogaidd Sankey a Moody. Rydym yn parhau i ganu rhai o'i donau mwyaf poblogaidd hyd heddiw!

Byddwn yn cael ein harwain i gofio am fywyd ac am gyfraniad John Roberts gan Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth, sy'n gerddor ac yn arbenigwr ar hanes ein canu cynulleidfaol.

Bydd Margaret Daniel, Blaenannerch, yn ein harwain i ganu detholiad o'r emynau, a bydd Alan Wynne Jones yn cyfeilio wrth i ni gydganu.

Bydd rhaglen arbennig yn cael ei pharatoi ar gyfer yr achlysur ac fe fydd ar gael wrth y drws.

## Dod i adnabod y Parch. Nan Wyn Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru



Ganed Nan yn y Waun-fawr, ger Caernarfon, ac ymunodd ag Eglwys Bresbyteraidd Cymru fel gweithiwr plant ac ieuenctid.

Ar ôl hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth, bu cydweithio â'i gŵr, y Parch. Huw Powell-Davies, fel gweinidog gwirfoddol yng ngofalaeth yr Wyddgrug. Bu hefyd yn gaplan yng ngharchar Altcourse, cyn cael ei phenodi'n Gyfarwyddwraig Gweinidogaethau Gynorthwyol, ac yn Ysgrifennydd Cyffredinol yn gynharach eleni.

Mae'n fam i dri o blant sy'n oedolion bellach, ac yn nain falch i Mari Ann.

Yn ei gwaith fel Ysgrifennydd Cyffredinol, mae'n gobeithio dod â'r Cyfundeb yn nes at yr eglwysi a gweithio mewn partneriaeth glòs â Chyngor Eglwysi'r Byd wrth wynebu'r heriau sydd o'u blaenau gyda'i gilydd yn deulu Cyngor Eglwysi'r Byd.

Dymunwn bob bendith iddi wrth iddi ymgymryd â'r her o gyflawni'r swydd arbennig hon.

### Allwch chi roi amlinelliad o'ch gwaith fel Ysgrifennydd Cyffredinol, os gwelwch yn dda?

Yr Ysgrifennydd Cyffredinol a Chyfarwyddwr Gweinidogaethau yw Prif Swyddog y Gymanfa Gyffredinol. Byddaf yn gyfrifol am arwain, cynghori, datblygu a dyfnhau bywyd a thystiolaeth ein henwad yma yng Nghymru (a Lloegr) ac yn y cyd-destun byd-eang hefyd.

### Beth yw'r heriau mwyaf ar hyn o bryd?

Mae llawer wedi newid arnom fel Eglwys yn ystod y ddwy flynedd a hanner dwytha a hawdd iawn fyddai i ni dorri ein calonnau'n llwyr wrth feddwl am y dirywiad. Credaf fod pob cynulleidfa, beth bynnag fo ei rhif a'i stad ysbrydol, yn haeddu pob urddas ac anrhydedd, yn union fel y dywed Paul wrth yr Eglwys yng Nghorinth.

Ond wrth baratoi a meddwl yn strategol i'r dyfodol mae'n rhaid i ni fentro a chynnig mwy na dim ond gofal lliniarol i'n haelodau a'n cymunedau. Mae hi'n unfed awr ar ddeg arnom, ac mae'n rhaid i ni weithredu ar unwaith. Y mae pob egin newydd angen gofal ac amynedd os oes ffrwyth i ddilyn. Ni fyddaf yn disgwyl i bawb gytuno gyda phob penderfyniad a gymerir, ond bydd eich cefnogaeth yn y 'mentro' anorfod y bydd rhaid i ni ei wneud yn hanfodol. Chwaraewr tîm ydw i, ac mae gwybod fod yna gefnogaeth yn anogaeth fawr. Yn wylaidd gofynnaf i chi weddïo dros yr Eglwys a throsom fel arweinyddion. Gweddïwch y bydd yr Arglwydd yn gwarchod ein calonnau a'n meddyliau bob amser.

### Beth sy'n eich calonogi fwyaf?

Bod yng nghwmni pobl Dduw. Gallaf ddweud fy mod yn caru'r Eglwys. Tydw i ddim yn caru sut yr ydym yn ymateb bob amser, ond dw i yn ei charu ac yn dyheu am ei gweld yn gogoneddu enw Iesu Grist yn fwy effeithiol i genhedlaeth newydd. Mae'r delwedd o'r Eglwys fel 'priodferch wedi ei thecáu ar gyfer ei gŵr' yn Llyfr y Datguddiad mor hardd.

Fy ngweddi a'm gweledigaeth, beth bynnag fyn Duw, heddiw ac i'n dyfodol, ydy ein bod ni'n parhau â'n llygaid ar y priodfab, Iesu Grist ei hun.

## Oes modd i ni ddefnyddio'r dechnoleg fodern mewn ffyrdd mwy effeithiol?

Credaf fod EBC wedi gorfod symud o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i'r unfed ganrif ar hugain o ran ei defnydd o dechnoleg mewn mater o tua mis!

Mae'r rhan fwyaf ohonom erbyn hyn yn gyfarwydd â chyfarfod yn rhithiol a chyfathrebu drwy'r rhwydweithiau cymdeithasol. Mae cyfarfod â phobl yn rhithiol, o bedwar ban byd, yn brofiad dyddiol i mi yn fy ngwaith erbyn hyn. Mae cloc Taiwan, Singapore, De Affrica, Jamaica, India a hyd yn oed Myanmar yn rheoli llawer ar fy amserlen. Un o'r dywediadau oedd yn cael ei ddefnyddio yn aml yn 2020 oedd: 'O na, cyfarfod am 12 o'r gloch *Singapore time*!' Pump o'r gloch yn y bore i ni!

Ond yn bwysicach na defnyddio technoleg fodern yn effeithiol, mae'n rhaid i'r Eglwys ofyn yn barhaus iddi hi ei hun a ydy hi'n cyfathrebu yn y modd mwya effeithiol. Mae diffyg cyfathrebu'n glir ac yn bendant yn gallu peri dipyn o boen a dryswch, ac yn achosi i ni golli cyfleoedd.

## A oes angen i'r enwad fod ag un weledigaeth gyffredinol neu a oes angen bod yn fwy penodol yn ein gwahanol eglwysi/capeli, neu a oes angen cyfuniad o'r ddau?

Credaf mai un o rinweddau yr Eglwys ydy'n hamrywiaeth, er bod rhai'n gweld hyn yn faen tramgwydd. Mae'n rhaid i ni i gyd ddysgu gwrando ar ein gilydd a bod yn barod i ddysgu. Mae cael gweledigaeth neu strategaeth ganolog yn sicr o ddangos arweiniad. Ond mae'n hanfodol i ni annog a perchnogi yr hyn sy'n digwydd yn lleol bob amser hefyd.

## Cytûn yn yr Eisteddfod Genedlaethol



Diolch yn fawr iawn i gyfeillion o Gapel Rehoboth, Taliesin, a Chapel Pen-llwyn am wirfoddoli i ddarparu paned ym mhabell yr Eglwysi bnawn Sul yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron.



Anfonwn eich cofion at aelodau a chyfeillion eglwysi'r ofalaeth sy'n wynebu afiechyd neu gyfnodau anodd yn eu bywydau ar hyn o bryd. Hyderwn eich bod yn profi nerth a chariad Duw yn eich amgylchynu ac yn eich cynnal.

## Capel y Garn

## Hydref

## Blaenor y mis: Alan Wynne Jones

2 Gwasanaeth diolchgarwch i'r teulu
dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch

Oedfa i ddathlu daucanmlwyddiant
geni Ieuan Gwyllt (John Roberts, 1822–77)
Capel Pen-llwyn am 5 o'r gloch

5 Cymdeithas Chwiorydd y Garn
Paned a sgwrs yn y festri am 2.30 o'r gloch

9 Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa
dan arweiniad y Parch Richard Lewis
am 10 o'r gloch

16 Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

21 Cymdeithas Lenyddol y Garn
'Geiriau'n Chwerthin: Tegwyn Jones'
sgwrs gan yr Athro Geraint H. Jenkins
Lluniaeth ysgafn yn y festri a chyfle i ymaelodi
o 6.30 o'r gloch ymlaen, a'r sgwrs am 7.30 o'r gloch

23 Oedfa'r ofalaeth am 10 o'r gloch
yng Nghapel y Garn
dan arweiniad y Gweinidog
Casgliad tuag at Hadau Gobaith

30 Oedfa dan arweiniad y Fns Beti Griffiths
am 10 o'r gloch

## Cadw’n gynnes y gaeaf ’ma



Gan fod prisiau nwy a thrydan wedi mynd i fyny ac yn debyg o fynd i fyny eto, byddwn i gyd yn wynebu costau ychwanegol y gaeaf hwn. Gall hyn olygu efallai y bydd yn rhaid ystyried lleihau’r defnydd o danwydd i wresogi ein tai.

Yn wyneb hyn, mae eglwysi ardal Bow Street, yn cynnwys y Garn a’r Noddfa, yn cydweithio gyda phwyllgor Neuadd Rhydypennau i geisio darparu lle cynnes a chroesawgar i unrhyw un sy’n dymuno hynny am awr neu ddwy unwaith yr wythnos.

Rhywbeth fel bore coffi sydd yn cael ei drafod ar hyn o bryd. Felly, os oes gynnoch chi awr neu ddwy i’w cynnig, dweder, unwaith y mis, byddai Eddie, sydd yn ceisio cydlynu hyn ar ran y Garn, yn falch iawn o glywed gennych.

Pan fydd y trefniadau wedi eu cwblhau, byddant yn ymddangos ar bosteri ac ar wefan y Garn.

## Cymdeithas Chwiorydd y Garn

Yn ôl eu harfer ar brynhawn Mercher cyntaf y mis, daeth y Chwiorydd at ei gilydd ar Fedi’r 7fed i gael cwpanaid a sgwrs gyfeillgar, anffurfiol, gan ein bod eisoes wedi cytuno na fyddwn yn llunio rhaglen o siaradwyr ffurfiol eleni. Byddwn yn cyfarfod eto ar Hydref 5ed.

*Llinos Dafis*

## Capel y Garn

## Tachwedd

## Blaenor y mis: Marian Beech Hughes

| | |
|---|---|
| 2 | Cymdeithas Chwiorydd y Garn<br>Paned a sgwrs yn y festri am 2.30 o'r gloch |
| 6 | Oedfa dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o'r gloch |
| 13 | Oedfa dan arweiniad Mr Lyndon Lloyd<br>am 10 o'r gloch |
| 18 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>'Llwybrau Gofal' – Angharad Jones,<br>Canolfan Addysg Gofal Iechyd<br>Prifysgol Aberystwyth |
| 20 | Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o'r gloch |
| 22 | Pwyllgor Swyddogion y Garn am 10 o'r gloch |
| 27 | Oedfa dan arweiniad y Parch John Roberts<br>am 10 o'r gloch |

Llongyfarchiadau i Wynne Melville Jones ar gael ei urddo'n aelod o Orsedd y Beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Dymuniadau gorau i Mrs Ray Evans yn ei chartref newydd yn Llanbadarn.


Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Shân Hayward a'r teulu yn eu profedigaeth drist o golli Mike, gŵr, tad a thad-cu annwyl.

## Cofnodi Hanes

Mewn cyfarfod yng Nghapel y Garn nos Fercher, Medi 7fed, trafodwyd yr angen i grynhoi, cadw ac arddangos gwahanol agweddau ar hanes y capel, a sut i wneud hynny. Cytunwyd y byddai'n ddymunol cael crynhoad o'r fath a bod rhaid dechrau yn rhywle felly, er nad oedd neb yn siŵr iawn yn ble!!

Bydd tair agwedd ar y gwaith, fwy na thebyg, sef hanes yr Achos, yr Adeilad, a'r Bobl. Bydd cyfrol Nerys Ann Jones, *Capel y Garn*, yn ffynhonnell ragorol, wrth gwrs. Ond efallai fod dogfennau eraill megis lluniau, llythyron, rhaglenni atgofion llafar, ac ati ar hyd y lle, mewn corneli a chilfachau, a allai fod o ddiddordeb.

Felly, os oes rhywbeth gennych chi yr hoffech chi ei rannu â ni, neu, yn well fyth, os oes gyda chi ddiddordeb mewn helpu yn y gwaith yma, cysylltwch â Llinos Dafis.




Yn y gyfrol hon, mae Robert Nicholls wedi gwahodd 64 o Gymry adnabyddus i rannu eu hoff emyn. Ceir cyfranwyr amrywiol: o'r cyflwynydd teledu Huw Edwards i'r bytholwyrdd Dafydd Iwan a Margaret Williams, yn ogystal â rhai o ffigyrau blaenllaw byd crefydd yng Nghymru heddiw, fel D. Densil Morgan, Judith Morris a Beti-Wyn James. Mae yma oriau o ddarllen difyr – pwy sy'n rhannu eich hoff emyn chi, tybed?

Cyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair; pris: £8.99

## Capel y Garn

## Rhagfyr

## Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams

| | |
|---|---|
| 4 | Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o’r gloch |
| 7 | Cymdeithas Chwiorydd y Garn<br>Paned a sgwrs yn y festri am 2.30 o’r gloch |
| 11 | Oedfa’r bore yng Nghapel Noddfa<br>am 10 o’r gloch |
| 16 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch<br>‘Dathlu’r Nadolig’<br>yng nghwmni Aled Myrddin a’r teulu |
| 18 | Oedfa deuluol y Nadolig dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o’r gloch<br><br>Gwasanaeth y Gair a’r Geiriau:<br>darlleniadau a cherddoriaeth ar gyfer y Nadolig<br>am 6 o’r gloch |
| 25 | Oedfa’r ofalaeth ar fore’r Nadolig<br>dan arweiniad y Gweinidog |



# Fy Nasareth I

Wrth dderbyn gwahoddiad y Gweinidog i ddweud gair neu ddau am fy nghysylltiad â Nasareth ar hyd y blynyddoedd, tipyn o sioc oedd edrych yn ôl a sylweddoli bod y cyfnod yn ymestyn dros ddeugain mlynedd.

Fe ddechreuodd y cysylltiad ddiwedd 1981 yn fuan ar ôl i mi briodi a dod i fyw i Lwynglas, ac ar anogaeth y Parch. Elwyn Pryse, y Gweinidog ar y pryd. Ac mae'n braf medru dweud fy mod wedi bod yn hapus iawn yma trwy gydol yr amser ac wedi teimlo'n gartrefol iawn. A'r allwedd i'r cyfan yw'r ffaith i mi gael fy nerbyn â breichiau agored yma ar yr un llaw, ac i minnau ymroi i holl weithgareddau a digwyddiadau'r eglwys ar y llaw arall, gan geisio gwneud fy ngorau bob amser.

Ar wrth edrych yn ôl y mae yna lu o atgofion yn llifo'n ôl dros y blynyddoedd: ffair y capel yn y Neuadd Goffa, y Gymanfa, partïon Nadolig, yr Ysgol Sul, cyfarfodydd y Chwiorydd a 'shoffro' chwiorydd i gyfarfodydd yma ac acw, Caledfryn yn derbyn Medal Gee, cymryd rhan yn ôl y galw, cefnogi achosion dyngarol a gwneud bwyd, wrth gwrs!

Ac yn naturiol y mae'r cysylltiad â'r organ wedi bod yn rhan fawr o'r profiad hefyd. Dechrau ar y llawr gyda'r organ fach, a hynny fel rhan o dîm yn y lle cyntaf, ac yna cael *promotion* i'r organ fawr a dysgu dringo'r grisiau serth.

Gyda threigl y blynyddoedd daeth cyfle i wasanaethu fel Trysorydd am gyfnod byr ac yna fel Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau ac Ysgrifennydd Cyffredinol. Coron ar y cyfan oedd cael fy nyrchafu'n flaenor yn 2018. Rhaid nodi hefyd fy mod yn falch iawn o fod wedi bod yn rhan o'r cydweithio efo Bethel sydd wedi bod yn gymaint o help dros y blynyddoedd diwethaf.

Wrth edrych yn ôl felly, ni allaf ond diolch am y fraint o gael bod yn aelod yma gan obeithio fy mod wedi gwneud rhyw gyfraniad at lwyddiant a pharhad yr Achos yma ac at lwyddiant a pharhad y dystiolaeth Gristnogol yn y pentref a'r cyffiniau yn enw Nasareth. Diolch yn fawr iawn.

*Janet Jones*

## Atgofion Plentyn Nasareth – Nia Richards

Byddai Dad-cu yn galw am Carwyn a minnau am gwarter i ddau bob wythnos i fynd i'r Ysgol Sul a bydden ni'n canu wrth gerdded lawr y pentref; ffefryn Dad-cu oedd 'Pe bawn i yn seren fach loyw lân'. Un o'm hatgofion cyntaf o'r Ysgol Sul yw sefyll ar ben plancyn o bren rhwng dwy gadair i fod yn ddigon tal i weld dros y sêt fawr i adrodd adnod: 'Duw, Cariad Yw'. Mrs Myfanwy Jones, Mrs Dilys Hughes a Dad-cu oedd yn cymryd yr Ysgol Sul, a bydden ni'n canu, adrodd Gweddi'r Arglwydd ac yn gwneud casgliad yn y capel, gyda cheiniogau mân yn cael eu rhoi mewn i focs y Genhadaeth. Wedyn, bydden ni'n symud i'r festri i gael darllen a gwneud gweithgareddau cyn mynd 'nôl i'r capel am emyn olaf a'r Fendith. Bob hyn a hyn byddai arholiad, a phawb yn nerfus iawn, ond dwi ddim yn credu i neb erioed beidio â chael tystysgrif.

Byddai gwasanaeth plant ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn: oedfa'r prynhawn rhan amlaf. Ac wrth edrych yn ôl nawr rwy'n teimlo gymaint dros Mrs Jones a Mrs Hughes wrth iddynt geisio cael trefn ar haid o blant aflonydd yn y pulpud, oedd â mwy o ddiddordeb mewn procio a phinsio'i gilydd a giglan. Weithiau, byddai angen dweud y drefn, ond ar ddiwedd pob gwasanaeth byddem ni i gyd yn "werth y byd". Ar fore Nadolig yr oedd gwasanaeth y plant, a byddai Mam yn gadael i ni agor un presant cyn mynd i capel. Byddai'n llawer gwell gennym fod wedi cael aros adre i agor y cyfan, ond y Nadolig cyntaf ar ôl i'r gwasanaethau ddod i ben, roeddwn mor fflat ac eisiau mynd i capel – roedd rhywbeth mawr yn eisiau ac roedd bwlch mawr ar ei ôl.

Byddai te yn y festri ar gyfer pob math o ddathliad – pawb yn gwybod ei le yn y drefn a'r cyfan yn rhedeg fel wats. Mrs Elinor Hughes yng ngofal y *boiler* bob amser, Mrs Griffiths y Cafe yn gwneud 'potted beef' a byddai galw mawr am *drop scones* Mrs Griff Jones bob amser. Ym mharti Nadolig y plant byddai'r byrddau dan eu sang, ac yn steil y 70au, rhai merched mewn ffrogiau hir a'r bechgyn yn smart mewn crysau ac ambell i 'dici bow'. Byddai Siôn Corn yn galw hefyd, ac yntau yn cyrraedd fel arfer tua chwarter awr ar ôl i Mr Dafydd Jones, Tŷ Capel, gael ei alw i'r dre ar neges frys! Un Nadolig, cyrhaeddodd Siôn Corn o loft yr organ ac ymddangos yn sydyn ar ben y stâr yng nghornel y festri. Ond roedd cymaint o'r plant wedi cael ofn a dechrau sgrechian fel y penderfynwyd gofyn i Santa fynd 'nôl i ddefnyddio'r drws fel arfer y flwyddyn ganlynol.

Yn arwain at y Gymanfa, fyddai wastad ar ddydd Mercher yn y Garn, byddem yn dysgu caneuon Adran y Plant yn y Detholiad, ac ar ddiwrnod y Gymanfa yn mynd i'r ysgol yn ein dillad gorau. Yn gynnar y prynhawn byddai bws Evans Penrhyn-coch yn cyrraedd tu mas, a neges yn dod dros y *tannoy* yn gofyn i blant Ysgol Sul Nazareth ymuno gyda'r aelodau ar y bws. A ffwrdd â ni wedi ecseitio'n llwyr ar y daith o dair milltir. Byddai'r plant lan ar y galeri, pawb yn eistedd yn y côr cywir gyda phlant Nazareth wastad ar y rhes flaen ac yn gallu edrych lawr ar y gynulleidfa a'r hetiau crand a phlu mawr. A dwi'n credu mai yn nhe'r Gymanfa yn Neuadd Rhydypennau i mi yfed o gwpan a soser tsieina am y tro cyntaf – a Dad-cu yn dal ei law o dan y cwpan rhag ofn i mi ei ollwng!

Mi ddechreuais chwarae'r piano yn yr Ysgol Sul tua wyth oed; ffefryn y plant oedd 'Mae'r Arglwydd yn cofio y dryw yn y drain' a phawb yn gwneud sŵn cwcw perffaith yn y llinell olaf! Ac arweiniodd hyn, wrth gwrs, i mi ddechrau chwarae'r organ yn y cwrdd yn un ar ddeg oed o dan lygad yr organyddes Miss Dilys Humphreys, gwraig garedig ac amyneddgar iawn!

Y dôn ddewisais ar gyfer ein hemyn cyntaf wrth i ni gau'r drysau am y tro olaf oedd 'Hesperus', tôn sydd yn agos iawn i'm calon gan mai hon oedd y gyntaf erioed i mi ei chwarae mewn cwrdd ar yr organ fawr. Ac felly, dwi'n cau'r cylch heno, yn diwedd yn yr union fan y dechreuais – ac wedi cael yr anrhydedd o adnabod pobl arbennig a dylanwadol ar fy mywyd ar y ffordd.

Yn Nasareth mae fy ngwreiddiau i – y man sefydlog ar hyd fy oes. Yma cefais fy medyddio, fy nerbyn, fy mhriodi, ac yma ffarweliais gyda'm hanwyliaid. Wrth gerdded i mewn i'r muriau yma, byddaf yn cael teimlad o lonyddwch a chynhaliaeth er gwaethaf unrhyw storm. Gwir hafan, a mawr yw fy niolch amdani, ei phobl ac am eu cariad a'u gofal.

*Nia Richards*

## Ysgol Sul Nasareth yn y 1970au (llun gyferbyn)

Siân James, Carolyn Smith, Marianne Williams, Glenys Evans, Mrs Edith Jones, Lynwen James, Siân Smith, Lefi Gruffudd, Garmon Gruffudd, Alison James, Carwyn Evans, Mrs Myfanwy Jones, David Evans, Mrs Dilys Hughes, Einion Gruffudd, Anna Prydderch, Nia Evans, Karen James, Carys Prydderch, Esther Prydderch, Mr Caledfryn Evans





**Pen-blwydd Caledfryn Evans yn 90 oed – 1986**

Gwyn a May Royle, Cyril a Jennie Evans, Nia, Eluned ac Alun Evans, Caledfryn Evans, Mererid Williams, Parch Elwyn Pryse, Bill Michell, ?, Glyn Michell, Gareth Hughes, Jim Morgan, Dilys Hughes, Christine Charlton, Tilly Jones, Myfanwy Jones, Eluned Williams, Siân James, Glenys Evans, Carol Jones, Tegwen Pryse

## ‘Cyhoeddwch o ddydd i ddydd ei iachawdwriaeth ef ...’

Ymhlith y breintiau a estynnwyd i ni fel eglwys Iesu Grist ar y ddaear y mae’r fraint a’r cyfrifoldeb o fod yn dystion iddo Ef yn y byd anghenus hwn. Cawn ein galw ym mhob cylch o fywyd i fod yn dystion i’w iachawdwriaeth ef, sef y ddawn iachusol, adferol, creadigol sydd ar waith yn y byd.

Wrth i ni wynebu heriau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol yr hydref hwn, gadewch i ni ymostwng i weddïo ac eiriol dros ein gwlad.

## Gweddi Hydref 2022

Hollalluog Dduw, addolwn di. Ymostyngwn ar ein gliniau gerbron yr Arglwydd, ein creawdwr. Ti yw’r un sy’n parhau i ymsymud drwy dy Ysbryd ar wyneb y tryblith mawr. Fel y symudaist dros ddaear oedd yn afluniaidd a gwag, diolchwn nad wyt wedi gadael y byd i’w haeddiant ond dy fod yn parhau i’w garu drwy Iesu Grist.

Diolch, yng nghanol helbulon a dryswch ein hoes, dy fod wedi dangos i’r byd dy fwriad grasol i gymodi’r byd ac uno’r greadigaeth mewn symffoni o fawl i ti dy hun am dy ras drwy Iesu Grist. Dyhëwn am gael gweld dy Deyrnas yn dod ar y ddaear fel y mae eisoes ym mherffeithrwydd y nef.
Tyrd, Ysbryd Glân.

Nertha ni i fod yn bobl obeithiol a hynny mewn byd lle mae pryder ar gynnydd ac ofn yn llethu cymdeithas. Caniatâ i ni fel cynulleidfaoedd gael golwg newydd ar wedd Tywysog bywyd.

Adfer dy eglwys. Bywha ein ffydd.

Llanwa ni â llawenydd.

(Llun: Erik Witsoe ar Unsplash)

Gweddïwn am y pethau hyn fel y medrwn rannu'r hyn a ymddiriedwyd i'n gofal gyda phobl sy'n bryderus ac yn ofnus.

Gweddïwn dros deuluoedd galarus, dros ein hanwyliaid
yn awr eu cyfyngder.

Gweddïwn dros weithwyr y gwasanaeth iechyd ...
dros athrawon ...
dros fyfyrwyr wrth iddynt ailafael yn eu hastudiaethau.

Gweddïwn dros amaethwyr,
gyda diolch am y cynhaeaf a gawsom eto eleni.

Gweddïwn dros lywodraethau'r ynysoedd hyn: yng Nghymru ...
yn yr Alban ... yng Ngogledd Iwerddon ... yn San Steffan.
Erfyniwn arnat i drugarhau wrth y gwledydd. Atal rwysg beilchion byd, darostwng gelwydd a llwydda yn ein byd yr hyn sydd yn dda, yn ddyrchafol, ac yn fywiol.

Parhawn i weddïo am heddwch yn Wcráin, yn Rwsia
a thros bobl Pacistan wedi'r llifogydd enbyd.

Cynorthwya ni i fod yn gynorthwywyr i gymunedau a phobl sydd yn ei chael hi'n anodd i gael dau pen llinyn ynghyd.

Arglwydd, rydym yn agor ein calonnau i ti gan weddïo y defnyddi'r hyn sydd ynom er dy glod. Amen.



# Cymdeithas Chwiorydd Rehoboth



Croesawyd yr aelodau i festri capel Rehoboth, Tre Taliesin, brynhawn dydd Mawrth, 13 Medi, ar gychwyn tymor newydd o'r Gymdeithas gan Eiriona Metcalfe. Ein gŵr gwadd am y prynhawn oedd Rees Thomas, Bow Street, a ddaeth gyda'i wraig, Mary, i sôn am y gadair hardd a gynlluniodd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion eleni.

Ac yntau'n gyn-athro gwaith coed yn Ysgol Gyfun Penweddig, dywedodd iddo gael ei ysbrydoli gan y patrwm a greodd yr afon Teifi wrth lifo drwy'r sir ar gyfer braich y gadair. Yn ogystal â'r nod cyfrin ar gefn y gadair, mae delwedd o'r barcud coch sy'n seiliedig ar baentiad gan Wynne Melville Jones, a hefyd enw Ceredigion yn null Coelbren y Beirdd. Gwelir enwau siroedd Cymru wedi eu cerfio yn y dull hanesyddol yma ar feini Cylch yr Orsedd yng Nghastell Aberystwyth.



Mae'r gadair ei hun wedi ei gwneud o bren derw, ond ar gyfer y dyluniad ar y cefn defnyddiwyd pren derw'r gors a gafwyd o Gors Fochno, a dywedir bod y gors a'r pren hwnnw'n dyddio'n ôl o leiaf bedair mil o flynyddoedd.

Wrth lunio'r gadair roedd Mr Thomas am greu darn o ddodrefn gwahanol a fyddai'n addas i'r cartref, ac mae'n amlwg iddo lwyddo i wneud hynny gan fod canmol mawr wedi bod ar ei waith.

Diolchwyd yn gynnes iddo am brynhawn diddorol iawn, a mwynhawyd paned o de a sgwrs ar y diwedd. Eiriona a Carys oedd yng ngofal y te, a diolch i'r aelodau eraill am eu help wrth ei weini.

*Carys Briddon*




Mae Apêl Hadau Gobaith, sef apêl arbennig Eglwys Bresbyteraidd Cymru / Cymorth Cristnogol am eleni, bellach yn canolbwyntio ar Honduras, lle mae prinder dŵr glân a'r argyfwng newid hinsawdd yn cael effaith anffafriol ar iechyd.

Un o brosiectau Cymorth Cristnogol yn Honduras yw prosiect ynni solar, ac eisoes gosodwyd dros 38 o systemau ynni solar pwrpasol yn eu lle.

Hefyd, drwy'r cynllun 'Hadau Coffi yn Honduras', mae grŵp o ferched sydd wedi'u hyfforddi i ffermio coffi yn defnyddio sychwyr solar i gadw'r tymheredd yn ddigon uchel i sychu'r hadau coffi yn ddigonol.

Diolch i bawb sydd wedi eisoes cyfrannu at yr apêl. Y nod a osodwyd ar gyfer yr apêl eleni yw **£16** yr aelod, a bydd pob cyfraniad yn cael ei werthfawrogi'n fawr ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau cymunedau bregus.

Os nad ydych chi wedi cyfrannu ac yn dymuno gwneud hynny, cysylltwch â Swyddogion eich eglwys, os gwelwch yn dda.

Oherwydd yr amgylchiadau arbennig a gafwyd yn ystod y flwyddyn, pan welwyd lansio sawl apêl frys arall, bydd yr apêl 'Hadau Gobaith' yn parhau tan gyfnod y Pasg 2023.



## Diolch a gilydd

Mae'n braf cael eistedd gyda'n gilydd
Wrth y bwrdd, waeth beth fo'r tywydd.
Bwyta, yfed, sgwrsio rhadlon,
A theimlo diolch yn ein calon.

Dyma rigwm bach syml a dealladwy (gobeithio) a luniais i'r ddau ŵyr, 7 a 9 oed, i ennyn llonyddwch wrth y bwrdd cyn dechrau bwyta.

Yn wir mae e wedi gweithio, ac wedi arwain at drafodaeth am ble mae ein calonnau ni a ble rydyn ni'n teimlo diolch – yn ein pennau, ein meddyliau, ein calonnau neu ein boliau – ac yn bwysicach fyth, beth yn union yw diolch.

Ni roddwyd sylw hyd yn hyn i'r geiriau eraill rown i'n awyddus i'w pwysleisio a chael trafodaeth arnyn nhw, sef '**gyda'n gilydd**' – mae cymaint i'w ddweud amdanyn nhw.

Rwy'n dal i ddisgwyl y cyfle!

*Llinos Dafis*

**Swyddogion yr Ofalaeth**

Cadeirydd: Ina Tudno Williams, Capel Seion
Is-gadeirydd: Alwyn Hughes, Madog
Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,
Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)
Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **11 Rhagfyr** i'r golygydd:
Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street